

Ysgol Gynradd Deighton, Blaenau Gwent

Creu diwylliant llawn dyhead er mwyn codi safonau

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Deighton yn Nhredegar ym Mlaenau Gwent. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r ardal leol ac ystad dai fawr, sydd ill dwy yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae 177 o ddisgyblion, rhwng 3 ac 11 oed, wedi'u cofrestru yn yr ysgol a chânt eu haddysgu mewn chwe dosbarth, gyda thri ohonynt yn cynnwys grwpiau oedran cymysg. Mae dosbarth meithrin rhan-amser hefyd.

Ar hyn o bryd, mae tua 51% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn gryn dipyn yn uwch na'r ganran gyfartalog genedlaethol o 20%. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn wyn Prydeinig ac nid oes unrhyw un ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae ambell ddisgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 27% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Nododd arolygiad gan Estyn ym mis Ebrill 2011 fod angen i'r ysgol wneud gwelliannau sylweddol. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ebrill 2012 a dechreuodd y dirprwy bennaeth yn ei swydd ym mis Ebrill 2013. Ym mis Mehefin 2013, ymwelodd tîm o arolygwyr Estyn â'r ysgol er mwyn gwerthuso cynnydd. Nodwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol ac y gellid cymryd ei henw oddi ar y rhestr o ysgolion yr oedd angen iddynt wella'n sylweddol. Barnodd arolygiad arall gan Estyn ym mis Medi 2015 fod ei pherfformiad presennol a'i rhagolygon ar gyfer gwella yn dda.

Taith yr ysgol i wella

Nodau strategol

Sefydlodd y pennaeth gyfres o flaenoriaethau strategol yn fuan er mwyn helpu'r ysgol i wella mewn ffordd gyflym ac effeithiol, a hynny o fan cychwyn heriol iawn. Yn eu plith roedd camau i fynd i'r afael â'r canlynol:

- lefel wael o addysgu
- diwylliant o anelu'n isel
- diffyg arweinyddiaeth gadarn

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r ddau fater cyntaf, cynhaliodd lawer o sgysiau heriol â'r staff am eu tanberfformiad. Roedd y pennaeth yn deall pwysigrwydd mynd i'r afael â'r lefel wael o addysgu yn gyflym er mwyn gwella safonau.

Roedd anghysondeb o ran ansawdd cyffredinol yr addysgu, a nodwyd gan y pennaeth ar unwaith, a chymerodd gamau i fynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, roedd amharodrwydd a hyd yn oed wrthwynebiad i newid ymhlith rhai o'r staff. Roedd yr aelodau hyn o staff yn credu eu bod yn gwneud gwaith da ac, ar y dechrau, ni wnaethant ymateb yn gadarnhaol i heriau i wella eu hymarfer. Cymerodd gryn dipyn o amser, ymdrech a dyfalbarhad gan y pennaeth i ddatrys y sefyllfa, gan gynnwys hyfforddiant a mentora uniongyrchol.

Nid oedd gan yr ysgol strwythur arwain sefydledig nac effeithiol. Nid oedd y rheini mewn rolau arwain yn deall yn llawn eu cyfrifoldeb am sicrhau safonau uchel i'r disgyblion yn eu dosbarthiadau eu hunain, ac nid oedd ganddynt ychwaith y sgiliau angenrheidiol i arwain eraill. Nododd y pennaeth fod angen sefydlu tîm arwain effeithiol er mwyn diwallu anghenion yr ysgol.

Roedd lefelau cydweithio rhwng y staff yn isel mewn sawl rhan o'r ysgol ac nid oeddent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel tîm. Cydnabu'r pennaeth fod angen trawsnewid diwylliant yr ysgol er mwyn iddi ddod yn gymuned ddysgu broffesiynol dyheadol lle'r oedd pob aelod o'r staff yn deall y gallent wella a chroesawu newid cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau i'w disgyblion. Ni allai un aelod o'r staff dderbyn y diwylliant newydd hwn a gadawodd yr ysgol. Fodd bynnag, dechreuodd yr aelodau eraill o'r staff newid eu ffordd o feddwl a daethant i dderbyn y disgwyliadau newydd. Gwnaethant ddechrau cydweithio i groesawu'r gwelliannau gofynnol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu.

Y brif flaenoriaeth oedd gweithio tuag at gyflawni argymhellion arolygiad Estyn, a wnaeth arwain at welliannau sylweddol yn yr ysgol. Dechreuwyd atgyfnerthu'r uwch dîm rheoli pan benodwyd dirprwy bennaeth newydd ym mis Ebrill 2013 a dechreuodd cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ddatblygu ei rôl yn llwyddiannus.

Yn sgil penodi cadeirydd newydd ar gyfer y bwrdd llywodraethu, â chefnidir yn y proffesiwn cyfreithiol, cafwyd mwy o her a chydberthynas fwy cydlynol â'r pennaeth a'r staff. Roedd y penderfyniad i benodi is-gadeirydd newydd, ag arbenigedd ym maes addysg a dadansoddi data, hefyd yn ddatblygiad hanfodol i'r ysgol. Roedd ei sgiliau yn ategu rhai'r cadeirydd yn dda ac yn sicrhau bod gan y corff llywodraethu'r arbenigedd angenrheidiol i herio'r pennaeth yn effeithiol.

Rheoli'r newid mewn diwylliant a gwella'r addysgu

Pan gyrhaeddodd yr ysgol, dangosodd y pennaeth newydd esiampl dda i'r staff a'r disgyblion. Gweithiodd gyda'r staff i werthuso eu galluoedd er mwyn datblygu strategaeth i helpu'r ysgol i gamu ymlaen. Dechreuodd hyn drwy arsylwi ar wersi er mwyn asesu safonau dysgu ac addysgu. Yn 2010, canran fechan iawn o'r disgyblion a oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Ym mis Ebrill 2012, nododd y pennaeth newydd yn gyflym y gallai llawer o'r disgyblion gyflawni gwell canlyniadau a gweithiodd yn galed gyda nhw a gyda'r staff er mwyn cynyddu disgwyliadau'r ddau grŵp. Dechreuodd y canlyniadau wella wrth i'r staff a'r disgyblion newid eu hagweddau a sylweddoli y gallent gyflawni mwy.

Ar y cam hwn, ni wnaed unrhyw ddefnydd o ddata ar gynnydd y disgyblion. Cyflwynodd yr ysgol brofion darllen bob chwe mis a defnyddiodd y canlyniadau i ddwyn y staff i gyfrif am gynnydd eu disgyblion. Yn sgil y cyfweiliadau ffurfiol bob chwe mis fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad cadarn newydd, bu modd cyflwyno disgwyliadau llawer uwch o ran cyflawniadau'r disgyblion.

Cyflwynodd y pennaeth amserlen benodol ar gyfer y ddau gyfnod allweddol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r cwricwlwm yn cael sylw priodol. Hefyd, crëwyd amserlen grŵp ymyrryd ar gyfer cymorth llythrennedd a rhifedd, gyda chofrestr yn cael ei chymryd ym mhob sesiwn, er mwyn sicrhau bod ymyriadau rheolaidd ar waith. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd sylfaenol.

Bu'r penderfyniad i'r pennaeth graffu ar waith cynllunio bob wythnos, gydag adborth yn cael ei roi i'r staff, yn ffordd effeithiol o wella ymarfer. Fodd bynnag, bu angen dyfalbarhau gyda hyn ar y dechrau, am nad oedd pob aelod o'r staff yn barod i wneud newidiadau i'w hymarfer cynllunio. Hefyd, arweiniodd y broses o gyflwyno cylch monitro, gan arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau'n rheolaidd, at

bennu targedau perfformiad a oedd yn gysylltiedig â chanlyniadau disgyblion ar gyfer staff a llawer o sgysiau anodd. Yn dilyn ymweliad gwelliant sylweddol cyntaf Estyn, cynyddodd y pennaeth y lefel o graffu ar lyfrau a lleihaodd amllder arsylwi ar wersi. Gwelodd fod hyn yn effeithiol am ei fod yn datgelu cynnydd disgyblion dros amser, yn hytrach na mewn gwrs unigol.

Cyflwynodd yr ysgol fframwaith i gefnogi athrawon i wella ansawdd eu hymarfer proffesiynol. Roedd y fframwaith hwn yn ganolog i ddatblygu staff am ei fod yn nodi'n glir elfennau gofynnol addysgu i safon dda neu well. Bu'n sail i gyfweiliadau rheoli perfformiad ac arsylwi ar wersi. Mae pob aelod o'r staff bellach yn hen gyfarwydd â'r fframwaith ac mae'n sbardun effeithiol i arweinyddiaeth wasgaredig.

Er bod gan yr ysgol system gyfrifiadurol i gofnodi cynnydd disgyblion, nid oedd yn effeithiol am nad oedd unrhyw ddefnydd yn cael ei wneud o'r data. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cymerodd y pennaeth yr awenau o ran y gwaith asesu. Cyflwynodd gyfarfodydd misol â phob athro yn unigol er mwyn gwerthuso data asesu disgyblion a chytuno ar dargedau ar gyfer gwella. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn canolbwyntio ar berfformiad grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Bu'r ffordd hon o weithio yn llwyddiannus iawn ac mae'r athrawon bellach yn monitro cywirdeb y data eu hunain er mwyn sicrhau bod proffiliau disgyblion yn gywir pan fyddant yn ymuno â'u dosbarth, ac nad ydynt yn rhoi'r argraff anghywir o gynnydd y disgyblion. Nawr mae gan y staff y sgiliau i ddadansoddi cynnydd eu disgyblion eu hunain, a hunanwerthuso yn hytrach na bod y pennaeth yn gwneud hynny, fel oedd yn digwydd.

Cyflwyno gwaith ysgol i ysgol er mwyn cynyddu disgwyliadau

Mae gwneud athrawon yn fwy atebol am y safonau y mae eu disgyblion yn eu cyrraedd wedi bod yn rhan ganolog o'r daith wella. Mae wedi codi ymwybyddiaeth y staff o'r safonau y dylai athrawon a disgyblion anelu atynt. Cyn hyn nid oedd gan y staff unrhyw syniad o sut beth oedd addysgu da nac ardderchog am eu bod yn gweithio mewn amgylchedd ynysig iawn.

Rhwng 2012 a 2013, canolbwyntiodd yr ysgol ar godi safonau darllen disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cydweithiodd ag ysgol gynradd leol arall er mwyn datblygu rhaglen ymyriadau darllen arfer orau. Adnodd oedd y rhaglen hon yn bennaf i sicrhau bod y grŵp hwn o ddisgyblion yn meithrin llythrennedd gweithredol drwy ymyrraeth un i un â chynorthwyrwyr addysgu a gwirfoddolwyr hyfforddedig. Rhan o'r rhaglen oedd ystyried y defnydd effeithiol o gyfrifiaduron llechen er mwyn meithrin mwy o ddiddordeb mewn darllen. Gwellodd y cynorthwyrwyr addysgu eu sgiliau drwy arsylwi ar arfer orau ym maes ymyriadau darllen a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi hyn mewn ysgol arall yn y rhanbarth. Dechreuodd y canlyniadau darllen ddangos gwelliant sylweddol.

Nid oedd amgylchedd dysgu'r ysgol yn cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol. Nid oedd unrhyw arddangosfeydd ysgogol i'w gweld ac roedd yr ystafelloedd dosbarth yn anniben a heb ddigon o gyfarpar ynddynt. Yn ystod 2013, ymwelodd y staff ag ysgol leol arall er mwyn dysgu am arfer orau wrth ddatblygu amgylcheddau dysgu effeithiol. O ganlyniad, gweithiodd y staff i sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth a'r rhannau eraill o'r ysgol yn fwy diddorol fel bod y disgyblion yn awyddus i ddysgu.

Dechreuodd y camau gweithredu hyn arwain at newid diwylliant o ran agweddau a hunanganfyddiad. Dangosodd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth esiampl dda o ran eu proffesiynoldeb, dangos empathi â'r dysgwyr, parhau i ganolbwyntio ar safonau academiaidd ac

ymddygiadol uchel, a dangos agweddau cadarnhaol mewn perthynas â gwobrau addysgu disgyblion ymatebol iawn. Dechreuodd diwylliant o waith tîm ddatblygu lle bu'n ddarniog cyn hyn.

Drwy gydweithio ag ysgol gynradd yng Nghasnewydd bu modd i'r staff arsylwi ar arfer orau o ran dysgu ac addysgu, gan ganolbwyntio ar godi safonau llythrennedd. Fel rhan o hyn arsylwyd ar arfer orau mewn gwarsi, darparwyd hyfforddiant datblygu proffesiynol gan bennaeth a dirprwy bennaeth yr ysgol bartner, ac aed ati i gymedroli gwaith y disgyblion ar y cyd a oedd yn werthfawr.

Yn ystod gwanwyn 2015, ymunodd yr ysgol â phrosiect 'Her Ysgolion Cymru' ei hysgol gyfun fwydo. Y prif ffocws oedd gweithio tuag at ddatblygu ymarfer ardderchog ymhlith yr athrawon a'r cynorthwyrwyr addysgu. Mae'r prosiect yn helpu i wella ansawdd addysgu pob aelod o'r staff yn yr ysgol gyfan.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol, sy'n canolbwyntio ar ymddygiad, ar y cyd ag ysgolion eraill yn yr ardal hefyd wedi helpu i rannu arfer dda a gwella'r gydberthynas â rhieni. O ganlyniad, mae'r rhieni yn fwy ymwybodol o gyflawniadau eu plant, yn academiaidd ac yn gymdeithasol, drwy negeseuon testun ac e-byst. Mae pob athro yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd busnes wythnosol a sesiynau datblygu proffesiynol. Caiff y staff annibyniaeth ac ymddiriedir ynddynt i arwain eu meysydd cyfrifoldeb a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella ag arweinyddiaeth hyderus. Drwy gyflwyno fforymau i gynorthwyrwyr addysgu bob hanner tymor bu modd i bob aelod o'r staff gyfrannu at y daith wella a lleisio eu barn. Mae gan gynorthwyrwyr addysgu gyfrifoldebau ychwanegol yn ogystal â'u rolau beunyddiol, ac maent wedi ymateb yn ffafriol i fwy o ymddiriedaeth.

Datblygu rôl y llywodraethwyr

Bellach, mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio'r ysgol yn effeithiol i gyflawni ei nodau strategol. I ddechrau, gwnaed hyn drwy'r cynllun gweithredu ôl-arolygu pan fu angen i'r ysgol wneud gwelliannau sylweddol. Cysylltwyd llywodraethwyr penodol â phob un o'r argymhellion a gwnaethant arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso cynnydd yr ysgol wrth gyflawni targedau cytûn. Mae diddordeb y corff llywodraethu mewn hyfforddiant mewn meysydd fel diogelu yn datblygu'n dda, sy'n codi ei ymwybyddiaeth o arfer orau. Bellach, ceir llywodraethwyr cyswllt ar gyfer tlodi, anghenion dysgu ychwanegol ac iechyd a diogelwch. Yn ogystal â chefnogi arweinwyr yr ysgol, mae'r llywodraethwyr hyn hefyd yn herio'r ysgol yn gynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn meithrin arfer dda yn y meysydd hyn.

Erbyn hyn mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan flynyddol yn y gwaith hunanwerthuso ac maent yn cadw llygad rheolaidd ar gynnydd yr ysgol tuag at gyflawni ei blaenoriaethau datblygu. I gefnogi'r gwaith hwn, mae gan lywodraethwyr dynodedig rolau cyswllt mewn meysydd pwnc craidd a byddant yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn herio a chefnogi arweinwyr pwnc, a nodi'r cynnydd yn y meysydd maent yn gyfrifol amdanynt.

Maent hefyd yn cefnogi'r ysgol yn dda drwy fynd gyda'r disgyblion ar ymweliadau, megis i Brifysgol Rhydychen fel rhan o fenter anelu'n uwch.

Cynnwys y rhieni a'r gymuned

Yn hanesyddol, prin y byddai'r rhieni a'r gymuned yn chwarae rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol. Cydnabu'r pennaeth bwysigrwyd meithrin cysylltiadau agos â'r grwpiau hyn er mwyn gwella lefelau llesiant y disgyblion, a sicrhau bod modd cefnogi eu prosesau dysgu yn well.

Cytunodd is-gadeirydd y llywodraethwyr i oruchwylio cymdeithas rhieni ac athrawon newydd yn 2012. Gwnaeth hyn newid cyfeiriad y sefydliad er gwell, gan gynnwys defnydd mwy effeithiol o'r

arian a godwyd gan y rhieni. I ddechrau, roedd y sefydliad newydd yn ariannu ymweliadau addysgol, a oedd yn rhan bwysig o adfywio'r cwricwlwm. Cafodd effaith gyflym ac amlwg ar ddiddordeb y disgyblion mewn dysgu. Mae calendr o ddigwyddiadau codi arian blyneddol bellach ar waith. Mae'r rhain yn helpu'r ysgol i brynu adnoddau newydd y mae eu hangen yn ddifrifus er mwyn gwella dysgu ac addysgu, gan gynnwys llwybrau antur awyr agored.

Hyfforddodd yr ysgol ddarllenwyr gwirfoddol i weithredu amrywiaeth o fentrau â'r nod o wella safonau darllen. Maent yn parhau i weithio'n rheolaidd yn yr ysgol ac maent yn gwneud cyfraniad da at feithrin diddordeb y disgyblion mewn darllen, a gwella eu lefelau cyflawniad.

Yn sgil cyflwyno system wobrwyo lle mae'r disgyblion yn ennill amser i'w dreulio ar weithgareddau o'u dewis, mae eu hymddygiad wedi gwella. Mae'n cynnwys clwb gwau poblogaidd a gaiff ei redeg gan fam-gu sy'n llywodraethwr, a chlwb garddio y mae'r rhieni yn helpu i'w redeg.

Mae'r rhieni hynny sy'n rhoi help llaw yn cefnogi ymweliadau lleol, er enghraifft â'r llyfrgell a'r parc lleol. Mae rhieni a mam-gu a thad-cu wedi helpu i ddatblygu'r ardaloedd awyr agored. Gwnaeth sawl rhiant nad oedd wedi dangos diddordeb yn flaenorol ymddiddori yn yr ysgol drwy'r fenter hon. Yn sgil grant mawr gan Cymunedau yn Gyntaf, y gwnaeth y gymdeithas rhieni ac athrawon ei gael yn annibynnol, bu modd ailddatblygu'r iard ganolog, sydd wedi creu adnodd gwerthfawr i gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae'r penderfyniad i gynnal diwrnodau agored, lle bydd y rhieni yn gweithio gyda'u plant mewn gwers, yn meithrin diddordeb y rhieni yn nodau'r ysgol i wella llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal dosbarthiadau ychwanegol i rieni, sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Mae Dechrau'n Deg yn cynnal sesiynau wythnosol i blant bach a'u rhieni, gan ganolbwyntio ar greu amgylcheddau llythrennedd a rhifedd cyfoethog gartref lle gall y plant ddysgu drwy chwarae. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys y rhieni yn fwy yn nysgu eu plant ac maent yn llwyddo i alluogi'r rhieni i gefnogi eu plant yn well gartref.

Disgyblion sydd â sgiliau TGCh da yw'r Arweinwyr Digidol ym Mlyneddoddedd 5 a 6. Maent yn gyfrifol am hyfforddi disgyblion, staff a'r gymuned ehangach, yn ogystal â mynd i'r afael â mân broblemau TGCh yn yr ysgol. Maent yn grŵp gweithgar iawn, er enghraifft rhedeg gweithdy bob hanner tymor i rieni a mam-gu a thad-cu, er mwyn dysgu am gyfrifiaduron llechen, 'apiau' a sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol. Mae gwasanaethau dathlu a digwyddiadau cyhoeddus rheolaidd yn helpu i gynnwys y rhieni. Mae digwyddiadau wrth y senotaff, gwasanaethau dosbarth, cyngherddau Nadolig, gwasanaethau carolau a darlenniadau o'r Beibl yn yr eglwys, a chyfarfodydd cyhoeddus ar wisg ysgol, ymddygiad a bwlio i gyd wedi'u defnyddio i anelu'n uwch a sicrhau cefnogaeth y gymuned.

Caiff digwyddiadau pontio, gan gynnwys cyngherddau ac arddangosiadau yn yr ysgol gyfun, ymateb ardderchog gan y rhieni a'r gofalwyr. Cynhelir cyfarfodydd gwerthfawr rhwng yr athrawon a'r rhieni yn gynnar bob tymor, er mwyn cytuno ar ddisgwyliadau o ran darllen, gwaith cartref ac agweddau eraill ar yr ysgol.

Cymell disgyblion

Er bod ymddygiad y disgyblion yn dda ar y cyfan, nid oedd unrhyw weithdrefnau cyson ar waith i ddelfio â'r ychydig o ddisgyblion a oedd yn ymddwyn mewn ffordd annerbyniol ac yn amharu ar eraill wrth iddynt ddysgu a chwarae. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cyflwynodd yr ysgol gyfres o reolau cytûn i'w rhoi ar waith drwy gydol y diwrnod ysgol. Yn eu plith roedd cyflwyno cardiau coch am ymddygiad annerbyniol a thynnu breintiau yn ôl os oedd angen. Cafodd y strategaeth hon ei gweithredu'n gyson ac roedd y disgyblion o'r farn ei bod yn deg ac yn effeithiol.

Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i sefydlu cyngor ysgol effeithiol, gan gynnwys ethol prif fachgen a phrif ferch. Mae aelodau'r cyngor wedi helpu i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd byw'n iach ym mhob dosbarth, ac maent wedi helpu'r staff i gyflwyno rheolau newydd o ran ymddygiad derbyniol. Gwnaeth aelodau'r cyngor helpu i ddylunio'r llwybr antur ar y cyd â'r darparwyr, y gymdeithas rhieni ac athrawon ac arweinwyr yr ysgol. Maent yn cynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau cyhoeddus, fel digwyddiadau Sul y Cofio lleol.

Mae'r eco-bwyllgor yn cynnal cyfarfodydd wythnosol dros ginio gyda'r aelod arweiniol o staff ac mae wedi datblygu eco-siarter i hyrwyddo strategaethau gwyrdd fel rota codi sbwriel yn y gymuned ac arbed ynni.

Mae'r ysgol yn ymwneud â menter i gefnogi'r disgyblion i anelu'n uwch. Bob blwyddyn, bydd holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â Choleg yr Iesu, Rhydychen i ddysgu amdano a sut y gallent gael lle yno. Mae'r fenter hon yn llwyddo i ysbrydoli llawer o'r disgyblion mewn perthynas â'r hyn y gallent ei gyflawni drwy weithio'n galed.

Deilliannau

Drwy gydol taith wella'r ysgol, gwnaeth arweinwyr yr ysgol fesur cynnydd mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys arsylwi ar wersi, craffu ar waith y disgyblion, a chynnal trafodaethau â'r disgyblion, y rhieni a'r staff. Roedd cysylltiad clir rhwng targedau rheoli perfformiad a blaenoriaethau cytûn, a wnaeth helpu'r staff i ganolbwyntio'n effeithiol ar gynnydd eu disgyblion. Cadarnhaodd systemau gwell i gasglu a dadansoddi data cyflawniadau'r disgyblion fod deilliannau yn gwella.

Rhwng 2012 a 2015, gwellodd deilliannau'r ysgol yn sylweddol, heblaw'r deilliannau disgwyledig o ran llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae arwyddion cryf fod y deilliannau ar y lefel dd disgwyledig yn 2012 a 2013 wedi'u chwyddo, sy'n golygu nad yw cymariaethau dilys yn ddibynadwy ar gyfer y dangosydd hwn.

- Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, cynyddodd perfformiad ar lefel y deilliant uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd o 29% i 43%, a chynyddodd o 18% i 43% o ran datblygiad mathemategol.
- Yng nghyfnod allweddol 2 ar y lefel dd disgwyledig, cynyddodd perfformiad mewn Saesneg o 67% ac mewn mathemateg o 83% i 97% ar gyfer y ddau bwnc
- Ar y lefel uwch na'r disgwyl, cynyddodd perfformiad mewn Saesneg o 29% ac mewn mathemateg o 25% i 41% ar gyfer y ddau bwnc
- Mae'r lefelau hyn o berfformiad ymhell uwchlaw'r rhai ar gyfer ysgolion tebyg eraill
- Cynyddodd lefelau presenoldeb o 92% yn 2012 i bron 95% yn 2015, sy'n rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg

Ym mis Mehefin 2015, cafodd yr ysgol arolygiad llawn arall gan Estyn dim ond dwy flynedd ar ôl cymryd ei henw oddi ar y rhestr o ysgolion yr oedd angen iddynt wella'n sylweddol. Cadarnhaodd y canlynol:

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn cyflawni'r deilliant disgwyledig mewn llythrennedd ac mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'r deilliant disgwyledig o ran datblygiad mathemategol
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'r lefel dd disgwyledig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

- Mae'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn aml yn gwneud cynnydd cyflym o'u mannau cychwyn unigol, ac maent yn gwneud cystal â'u cyd-ddisgyblion
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Mae'r addysgu o ansawdd da
- Mae'r athrawon a'r cynorthwyyr addysgu yn gofalu am eu disgyblion yn dda, yn enwedig y rhai y mae eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i niwed

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- Mae camau gweithredu strategol yr ysgol wedi gwella cyflawniadau disgyblion difreintiedig yn sylweddol
- Mae gan y pennaeth a'r uwch-reolwyr hanes da o gyflawni gwelliannau cyflym ers yr arolygiad diwethaf
- Mae'r arweinwyr yn disgwyl i'w staff a'u disgyblion gyrraedd y brig
- Mae'r arweinwyr yn defnyddio data yn effeithiol iawn er mwyn llywio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y dyfodol
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn amrywiaeth o bartneriaethau, sydd o fudd mawr i'r disgyblion